**<u>Frequently Asked Questions – Energy Saving Grant 2025</u>**

**Q: When is the fund open?**

**A:** Energy Saving Grant will go live at 09:00am on Wednesday May 21st, 2025. It will remain open for Stage 1 submissions for five weeks, closing at 15:00pm on Wednesday June 25th, 2025.

**Q: What can I apply for?**

**A:** Eligible items will be:

- lighting (excluding playing/training floodlights or indoor lights for playing purposes);
- solar panels;
- insulation/building fabrics;
- heating/hot water sources (not for catering-only purposes);
- sustainable water sourcing;

For anything else energy-related not listed above you can **explore our other grants here.**

**Q: Who can apply?**

**A:** You are eligible if you're a not-for-profit club or community organisation in Wales with a project or activity that:

- has not yet started;
- will take place in Wales and be mainly for people who live in Wales;

**Q: How much can we apply for?**

**A:** The maximum award will be £25,000.

**Q: Will applicants need to provide any financial contribution?**

**A:** All successful applicants will be required to contribute a minimum 20%. As part of the Stage 2 process applicants will need to pay for a survey energy, the cost of which can be included as part of the applicant contribution.

**Q: How will projects be prioritised?**

**A:** A range of considerations will determine the prioritisation. We will be seeking to ensure the funding has the biggest impact, which may take into account the use of the facility, the numbers who use the facility, the potential for energy efficiencies including the age and location of the facility. In addition, we will also look at the feasibility of work being completed within required timescales and budgets. Sport Wales will also utilise its investment model to ensure that all sports that apply are successful and equitably represented.

**Q: What details do we need to provide?**

**A:** At Stage 1 details of the applicant will be required, specifically any eligibility including ownership of the freehold or a sufficient existing* leasehold. Whilst quotes are not essential at this stage, an outline of the project, an informed cost estimate and responses to other questions will provide a guide to its potential success.

**Minimum 7 years remaining at the time of application*

**Q: Will applicants need a survey?**

**A:** It is anticipated that all applicants will need a survey if the initial Stage 1 application is taken forward to a stage 2 process. We will inform applicants who are successful at the appropriate time prior to this being required. There may be some exceptions, such as if the application is centred on internal LED lighting only, or if a comparable survey has been completed prior to the application and can be provided as evidence. However, even in the case of internal LED lighting only, there may be merit in undertaking an energy survey.

**Q: What if the survey is unsuccessful?**

**A:** We anticipate that even if the survey findings result in the initial project specification being rejected it may provide details on other energy efficiencies that could be funded. However, in the event there is no scope to fund work through this avenue Sport Wales will repay 50% of the survey costs to the applicant.

**Q: When will we find out if we are successful?**

**A:** Those who are successful at Stage 1 will be informed by mid-July. Final decisions after the Stage 2 process can expect confirmation in late October, subject to any survey delays.

**Cwestiynau Cyffredin – Grant Arbed Ynni 2025**

**C: Pryd mae'r gronfa ar agor?**

**A:** Bydd y Grant Arbed Ynni yn mynd yn fyw am 09:00am ar ddydd Mercher Mai 21ain, 2025. Bydd yn parhau ar agor ar gyfer cyflwyniadau Cam 1 am bump wythnos, ac yn cau am 15:00pm ar ddydd Mercher Mehefin 25ain 2025.

**C: Am beth allaf i wneud cais?**

**A:** Dyma'r eitemau cymwys:

- goleuadau (ac eithrio llifoleuadau chwarae/hyfforddi neu oleuadau tu fewn ar gyfer y pwrpas o chwarae)
- paneli solar
- insiwleiddio/ffabrigau adeiladu
- ffynonellau gwresogi/dŵr poeth (nid at ddibenion arlwyo yn unig)
- ffynhonnell ddŵr gynaliadwy

Ar gyfer unrhyw beth arall sy'n gysylltiedig ag ynni sydd heb ei restru uchod gallwch edrych ar ein grantiau eraill yma.

**C: Pwy all wneud cais?**

**A:** Rydych chi'n gymwys os ydych chi'n glwb nid-er-elw neu'n sefydliad cymunedol yng Nghymru gyda phrosiect neu weithgaredd:

- nad yw wedi dechrau eto.
- a fydd yn cael ei gynnal yng Nghymru ac i bobl sy'n byw yng Nghymru yn bennaf.

**C: Am faint y gallwn ni wneud cais?**

**A:** Y dyfarniad uchaf fydd £25,000.

**C: A fydd angen i ymgeiswyr ddarparu unrhyw gyfraniad ariannol?**

**A:** Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gyfrannu isafswm o 20%. Fel rhan o broses Cam 2 bydd angen i ymgeiswyr dalu am arolwg ynni a gellir cynnwys cost yr arolwg fel rhan o gyfraniad yr ymgeisydd.

**C: Sut bydd prosiectau'n cael eu blaenoriaethu?**

**A:** Bydd ystod o ystyriaethau yn pennu'r broses flaenoriaethu. Byddwn ni'n ceisio sicrhau bod y cyllid yn cael yr effaith fwyaf, a allai ystyried defnydd y cyfleuster, y niferoedd sy'n defnyddio'r cyfleuster, potensial ar gyfer effeithlonrwydd ynni gan gynnwys oedran a lleoliad y cyfleuster. Ar ben hynny, byddwn hefyd yn edrych ar ymarferoldeb gwaith sy'n cael ei gwblhau o fewn y terfynau amser a chyllidebau gofynnol. Bydd Chwaraeon Cymru hefyd yn defnyddio ei fodel buddsoddi i sicrhau bod y gwahanol chwaraeon sy'n ymgeisio yn llwyddiannus ac wedi'u cynrychioli'n deg.

**C: Pa fanylion sydd angen i ni eu darparu?**

**A:** Yng Ngham 1 bydd angen manylion yr ymgeisydd, yn benodol unrhyw gymhwysedd gan gynnwys perchnogaeth o'r rhydd-ddaliad neu lesddaliad bresennol ddigonol*. Er nad yw dyfynbrisiau'n

hanfodol ar hyn o bryd, bydd amlinelliad o'r prosiect, amcangyfrif gwybodus o'r gost a'r ymatebion i gwestiynau eraill yn rhoi canllaw i'w lwyddiant posibl.

**Isafswm o 7 mlynedd ar ôl adeg gwneud cais*

**C: A fydd angen arolwg ar yr ymgeiswyr?**

**A:** Rhagwelir y bydd angen arolwg ar bob ymgeisydd os yw'r cais Cam 1 cychwynnol yn cael ei symud ymlaen i broses Cam 2. Byddwn yn rhoi gwybod i ymgeiswyr llwyddiannus ar adeg briodol cyn bod angen gwneud hyn. Gall fod rhai eithriadau, fel os yw'r cais yn canolbwyntio ar oleuadau LED tu mewn yn unig, neu os oes arolwg tebyg wedi'i gwblhau cyn y cais a gellir ei ddarparu fel tystiolaeth. Fodd bynnag, hyd yn oed yn achos goleuadau LED y tu mewn yn unig, gall fod yn syniad da cynnal arolwg ynni.

**C: Beth os yw'r arolwg yn aflwyddiannus?**

**A:** Rydym yn rhagweld hyd yn oed os yw canfyddiadau'r arolwg yn arwain at wrthod manyleb y prosiect cychwynnol y gallai roi manylion am ddewisiadau effeithlonrwydd ynni eraill y gellid eu hariannu. Fodd bynnag, os nad oes lle i ariannu gwaith drwy'r broses hon bydd Chwaraeon Cymru yn ad-dalu 50% o gostau'r arolwg i'r ymgeisydd.

**C: Pryd gawn ni wybod os ydyn ni'n llwyddiannus?**

**A:** Bydd y rhai sy'n llwyddiannus yng Ngham 1 yn cael gwybod erbyn canol mis Gorffennaf. Gall penderfyniadau terfynol ar ôl proses Cam 2 gael eu cadarnhau tua diwedd mis Hydref, yn amodol ar unrhyw oedi yn yr arolwg.